Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi

TACHWEDD 2016

Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi

Proses Apelio

Tachwedd 2016

1. Swyddogaeth Cymwysterau Cymru yw'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) er mwyn adolygu apeliadau mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau penodol sydd wedi'u rheoleiddio, yn unol â'r Amodau Cydnabod Safonol gyda'r pwrpas cyffredinol o ddiogelu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

2. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu proses yr EPRS o wneud cais i wneud penderfyniad terfynol. Proses apeliadau a chwynion yw EPRS o fewn ystyr Amod I2.1 i'r Amodau Cydnabod Safonol. Mae felly'n ofynnol i gyrff dyfarnu a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru gydymffurfio â gofynion proses yr EPRS.

Trosolwg o broses yr EPRS

3. Mae EPRS yn rhoi cyfle i glywed dadl bod corff dyfarnu wedi methu â dilyn neu gymhwyso'r gweithdrefnau anghenrheidiol priodol wrth farcio neu ddyfarnu cymhwyster perthnasol a / neu wrth ymdrin ag Ymholiad ynglŷn â Chanlyniadau (EaR) neu apêl ddilynol. Nid yw EPRS yn ail-farcio sgriptiau arholiad ac ni all newid y marc neu'r radd a ddyfernir i ymgeisydd na'i gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu wneud hynny.

4. Mae proses yr EPRS yn cynnwys dau gam, sef Gwneud Cais ac yna'r Gwrandawiad. Bydd pob cais yn dechrau ar y cam Gwneud Cais, a bydd ceisiadau sy'n cyflwyno achos credadwy yn symud ymlaen i'r Wrandawiad.

5. Drwy gydol proses yr EPRS, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dangos, ar sail tystiolaeth, pam y dylai'r cais lwyddo. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos hyn yn ôl yr hyn sy'n debygol (h.y. yn fwy tebygol na pheidio).

Y Cam Gwneud Cais

6. Gall ysgolion neu golegau wneud cais i'r EPRS ar ran ymgeisydd neu, os bydd yr ymgeisydd yn ymgeisydd preifat, gall yr ymgeisydd wneud y cais (neu gynrychiolydd iddo).

7. Rhaid i ymgeiswyr i EPRS wneud cais gan ddefnyddio ffurflen gais yr EPRS a dylid ei chyflwyno i EPRS@qualificationswales.org

8. Bydd Cymwysterau Cymru yn bwrw golwg dros bob cais i EPRS ac yn rhoi ymateb cychwynnol o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd yr ymateb cychwynnol yn nodi p'un a yw'r cais yn gymwys ai peidio.

9. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig y bydd cais i EPRS yn gymwys:

    a. O ran TGAU, TAU, Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru; ac

    b. O ran dyfarnu'r cymwysterau hynny i ymgeiswyr sydd wedi'u hasesu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

    c. Lle mae'r broses adolygu ac apelio oedd ar gael gan y corff dyfarnu eisoes wedi'i dilyn yn aflwyddiannus.

10. Yn ogystal, ni fydd EPRS fel arfer yn ystyried cais a wnaed fwy na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y derbyniodd yr ymgeisydd benderfyniad terfynol gan y corff dyfarnu.

<u>Ceisiadau anghymwys</u>

11. Cyflwynir penderfyniad bod cais yn anghymwys, am nad yw'n bodloni'r meini prawf ym mharagraff 9, uchod, ar ffurf llythyr yn nodi bwriad Cymwysterau Cymru i wrthod y cais am ei fod yn anghymwys, gan esbonio pam. Bydd y llythyr yn nodi'r dyddiad y daw'r penderfyniad yn weithredol, a fydd fel arfer 5 diwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr.

12. Os cred ymgeisydd bod penderfyniad bwriadedig Cymwysterau Cymru yn anghywir, gall yr ymgeisydd wneud sylwadau ar unrhyw amser cyn y dyddiad a nodwyd. Gallai'r sylwadau gynnwys cais am amser ychwanegol er mwyn gwneud sylwadau.

13. Lle rhoddir sylwadau, bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried y sylwadau a naill ai'n rhoi penderfyniad terfynol bod y cais yn anghymwys, gyda rhesymau, neu ymateb cychwynnol arall (gweler isod) fel y bo'n briodol.

14. Lle na roddir sylwadau, daw'r penderfyniad terfynol i rym ar y dyddiad penodedig ac ni anfonir unrhyw ohebiaeth bellach.

<u>Ceisiadau cymwys</u>

15. Bydd cais cymwys yn mynd ymlaen i Wrandawiad os bydd yn ymddangos ei bod yn rhesymol gredadwy bod:

a. Y corff dyfarnu wedi methu â dilyn ei weithdrefnau cyhoeddedig ei hun; neu fod
b. Y corff dyfarnu wedi methu â sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol yn ôl yr Amodau Cydnabod Safonol (gan gynnwys Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU / TAU) a nodir ac a gyhoeddir gan Cymwysterau Cymru ar yr adeg y gwnaed y dyfarniad'[1] (yr Amodau); Ac:

c. Roedd ymgeisydd perthnasol o dan anfantais o ganlyniad i fethiant o'r fath, neu y gallai fod yn y sefyllfa honno.

16. Caiff pob penderfyniad y bydd cais yn mynd ymlaen i Wrandawiad ei wneud gan un o swyddogion Cymwysterau Cymru sydd wedi'i benodi i weithredu fel Cadeirydd EPRS. Gellir penderfynu y bydd cais yn mynd ymlaen i Wrandawiad ar sail gwybodaeth a thystiolaeth a nodir yn y cais neu ar ôl gwerthuso tystiolaeth bellach.

Tystiolaeth bellach

17. Ceir tystiolaeth bellach pan fydd yn ymddangos i Cymwysterau Cymru y gallai tystiolaeth bellach o'r fath:

a. Arwain at achos credadwy bod y corff dyfarnu wedi methu â dilyn ei weithdrefnau ei hun neu i ddiogelu canlyniadau sy'n ofynnol gan yr Amodau; a / neu

b. Yn arwain at achos credadwy bod Dysgwr perthnasol wedi bod o dan anfantais o ganlyniad i fethiant o'r fath, neu y gallai fod yn y sefyllfa honno.

18. Pan fydd gofyn cael tystiolaeth bellach gan yr ymgeisydd, bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu'r ymgeisydd, yn nodi'r dystiolaeth bellach ac yn nodi erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth.

19. Pan fydd angen i gorff dyfarnu gyflwyno tystiolaeth bellach, bydd Cymwysterau Cymru yn:

a. Hysbysu'r corff dyfarnu bod cais wedi'i wneud i EPRS;

[1] Mae dadl bod y cyrff dyfarnu wedi methu â sicrhau'r canlyniadau sy'n ofynnol yn ôl yr Amodau yn cynnwys yr holl Ddogfennau Rheoleiddio, fel y maent wedi'u cynnwys ar Restr Dogfennau Rheoleiddio Cymwysterau Cymru.

b. Yn hysbysu'r corff dyfarnu bod angen tystiolaeth bellach gan y corff dyfarnu er mwyn caniatáu i Cymwysterau Cymru ystyried yn briodol p'un a ddylai'r cais i EPRS fynd yn ei flaen i Wrandawiad;

c. Yn nodi'r dystiolaeth bellach sydd ei hangen;

d. Yn nodi erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth honno;

e. Yn hysbysu'r ymgeisydd bod cais wedi'i wneud am dystiolaeth bellach gan y corff dyfarnu ac yn nodi ebryn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth.

20. Bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu a ddylid datgelu'r dystiolaeth bellach i'r ymgeisydd (neu i'r corff dyfarnu, fel y bo'n briodol) ac o bosibl yn caniatau cyfnod i wneud sylwadau yn dilyn datgeliad o'r fath.

Penderfyniad dros dro

2. Caiff penderfyniad dros dro i wrthod cais cymwys heb Wrandawiad ei wneud mewn pob achos lle:

   a. Nad yw'n ymddangos yn gredadwy bod y corff dyfarnu naill ai wedi methu â dilyn ei weithdrefnau cyhoeddedig ei hun neu wedi methu â diogelu canlyniadau sy'n ofynnol yn ôl yr Amodau; neu

   b. Nid yw'n ymddangos yn gredadwy bod ymgeisydd perthnasol wedi bod o dan unrhyw wir anfantais o ganlyniad i fethiant o'r fath neu mewn cysylltiad ag ef, p'un a oes methiant o'r fath wedi bod ai peidio; ac

   c. Nid yw'n ymddangos yn debygol y bydd cael tystiolaeth bellach yn arwain at achos credadwy bod methiant perthnasol wedi bod neu fod ymgeisydd perthnasol wedi bod o dan wir anfantais o ganlyniad i fethiant o'r fath.

3. Caiff penderfyniad dros dro i wrthod cais cymwys heb Wrandawiad ei wneud gan Gadeirydd EPRS. Bydd y penderfyniad dros dro yn crynhoi'r dystiolaeth a ystyriwyd ac yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad dros dro.

4. Caiff yr ymgeisydd gyfnod o 20 diwrnod gwaith i wneud sylwadau mewn perthynas â phenderfyniad dros dro i wrthod cais cymwys heb Wrandawiad. Mae'n bosibl y caniateir rhagor o amser yn ôl disgresiwn Cadeirydd yr EPRS.

5. Mae'n bosibl y bydd y corff dyfarnu, lle yr ymddengys yn briodol i Gadeirydd yr EPRS, yn cael gwybod bod penderfyniad dros dro wedi'i ddyfarnu ond ni chaiff gopi o'r penderfyniad hwnnw fel arfer.

Penderfyniad terfynol

6. Caiff penderfyniad terfynol i wrthod cais cymwys heb Wrandawiad ei wneud ymhob achos lle:

    a. Mae penderfyniad dros dro wedi'i wneud ac

    b. Mae'r ymgeisydd wedi cael digon o gyfleoedd i wneud sylwadau; ac

    c. Nad yw'n ymddangos yn gredadwy bod y corff dyfarnu naill ai wedi methu â dilyn ei weithdrefnau cyhoeddedig ei hun neu wedi methu â diogelu canlyniadau sy'n ofynnol yn ôl yr Amodau; neu

    d. Nid yw'n ymddangos yn gredadwy bod ymgeisydd perthnasol wedi bod o dan unrhyw wir anfantais o ganlyniad i fethiant o'r fath neu mewn cysylltiad ag ef, p'un a oes methiant o'r fath wedi bod ai peidio; a

    e. Nid yw'n ymddangos yn debygol y bydd cael tystiolaeth bellach yn arwain at achos credadwy bod methiant perthnasol wedi bod neu fod ymgeisydd perthnasol wedi bod o dan wir anfantais o ganlyniad i fethiant o'r fath.

7. Caiff penderfyniad terfynol i wrthod cais cymwys heb Wrandawiad ei wneud gan Gadeirydd yr EPRS. Bydd y penderfyniad yn crynhoi'r dystiolaeth a ystyriwyd a bydd unrhyw sylwadau a wneir yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad, yn cynnwys dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed, os oedd unrhyw sylwadau.

Y Gwrandawiad

8. Bydd Cymwysterau Cymru yn penodi Panel EPRS i ystyried pob cais sy'n mynd ymlaen i Wrandawiad.

9. Mae Panel EPRS yn cynnwys Cadeirydd yr EPRS a dau aelod o EPRS. Gall y Panel EPRS gymryd cyngor cyfreithiol, technegol a / neu unrhyw gyngor arall yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

10. Bydd Panel yr EPRS yn bwrw golwg dros y dystiolaeth ddogfennol a'r ddadl ysgrifenedig yn yr achos ac yn trefnu gwrandawiad y caiff yr ymgeisydd a'r

corff dyfarnu eu gwahodd iddo i wneud sylwadau wyneb yn wyneb. Cyfrifoldeb Panel yr EPRS, gan gydweithredu drwy Gadeirydd yr EPRS, yw rheoli'r amserlen a'r weithdrefn ar gyfer y gwrandawiad. **Penderfyniadau yn dilyn gwrandawiad**

11. Yn dilyn y gwrandawiad, bydd Panel yr EPRS naill ai'n cymeradwyo'r cais EPRS neu yn ei wrthod. Caiff pob penderfyniad ei wneud gan y Cadeirydd EPRS perthnasol ar ran Panel yr EPRS.

12. Caiff penderfyniad dangosol, p'un a yw cais wedi cael ei gymeradwyo neu ei wrthod, fel arfer ei roi ar y diwrnod gwaith yn dilyn y gwrandawiad.

13. Caiff penderfyniad terfynol, â rhesymau, fel arfer ei roi o fewn 15 diwrnod gwaith o'r gwrandawiad.

14. Yn ôl disgresiwn absoliwt Cadeirydd yr EPRS, mae'n bosibl y bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar ffurf drafft ac y caiff y partïon y cyfle i roi sylwadau o ran cywirdeb ffeithiol.

15. Pan gaiff cais ei gymeradwyo bydd Panel yr EPRS, yn ei benderfyniad terfynol, yn gwneud y canlynol:

    a. Nodi'r elfen o weithdrefnau'r bwrdd dyfarnu ei hun y cred fod y corff dyfarnu wedi methu â'i dilyn; a / neu

    b. Nodi'r canlyniad y mae'r corff dyfarnu wedi methu â sicrhau a'r Amod sy'n gwneud y canlyniad hwnnw'n ofynnol; a

    c. Nodi'r anfantais neu'r anfantais bosibl i Ddysgwr perthnasol; ac

    d. Egluro'r rhesymau dros ei benderfyniad, yn cynnwys nodi'r dystiolaeth y mae wedi dibynnu arni, ac egluro unrhyw gasgliadau y mae wedi eu gwneud ac unrhyw dystiolaeth nad oedd yn teimlo y gellid dibynnu arni.

16. Pan gaiff cais ei wrthod bydd Panel yr EPRS, yn ei benderfyniad terfynol, yn egluro'r rhesymau dros ei benderfyniad, yn cynnwys nodi'r dystiolaeth y mae wedi dibynnu arni, ac egluro unrhyw gasgliadau y mae wedi eu gwneud ac unrhyw dystiolaeth nad oedd yn teimlo y gellid dibynnu arni.

17. Bydd yr EPRS yn cyflwyno canlyniad pob Gwrandawiad i Gyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cymwysterau Cymru.

Adolygiad Mewnol

18. Gall ymgeisydd i'r EPRS wneud cais am Adolygiad Mewnol ar unrhyw benderfyniad:

    a. Bod cais yn Anghymwys; neu

    b. Na fydd cais Cymwys yn mynd ymlaen i Wrandawiad.

19. Rhaid anfon ceisiadau am Adolygiad Mewnol at EPRS@qualificationswales.org a gellir eu gwneud ar y sail bod y canlynol yn wir o ran y penderfyniad i wrthod y cais, neu ran o'r cais:

    a. Roedd y ffeithiau a ddefnyddiwyd i ategu'r penderfyniad yn anghywir; neu
    b. Nid oes ffaith berthnasol wedi'i hystyried; neu
    c. Nid yw Cymwysterau Cymru wedi dilyn ei weithdrefnau ei hun, neu
    d. Mae'r penderfyniad, ym mhob un o'r amgylchiadau, yn un afresymol.

20. Cynhelir unrhyw adolygiad gan un o swyddogion Cymwysterau Cymru nad yw wedi ymwneud â'r cais yn flaenorol ac a allai, neu na allai, fod yn Gadeirydd EPRS.